Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working
www.erw.cymru
www.erw.wales

SWYDD-DDISGRIFIAD
ERW

TEITL Y SWYDD:	Prif Swyddog ERW	**CYFEIRNOD Y SWYDD:**
ADRAN:	ERW	**GRADD: Soulbury 32**
IS-ADRAN:	Addysg	**Proffil y Rôl:**
YN ATEBOL I:	Cyfarwyddwr Arweiniol ERW	

DIBEN Y SWYDD

Bod yn Brif Swyddog ERW i ddarparu a datblygu'r Gwasanaethau Gwella Ysgolion yng Nghonsortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru, sef ERW. Bod yn gyfrifol am gyflawni cenhadaeth, gwerthoedd ac egwyddorion gwella ysgolion ERW, a hynny gyda'r nodau a'r amcanion cyffredinol o godi safonau cyflawniad ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yn y rhanbarth.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Darparu arweinyddiaeth a gweledigaeth er mwyn cyflymu a gwireddu dyheadau ERW, sef Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru, o ran gwella ysgolion
- I weithio gyda'r uwch dîm rheoli i sicrhau bod y Cynlluniau Gwasanaeth Statudol a'r Cynlluniau Busnes ar gyfer meysydd gwasanaeth yn cael eu llunio, eu gweithredu, eu monitro a'u gwerthuso, ac yn ymateb i dueddiadau, gofynion a materion perfformio newidiol
- I gefnogi cyflwyno model gwella ysgolion effeithiol yn y rhanbarth, sy'n bodloni Polisi Cenedlaethol ac amcanion strategol ERW, fel ei gilydd, ac sy'n gyson ledled y rhanbarth
- Bod yr arweinydd proffesiynol o ran meithrin a chynnal perthnasoedd â Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhanbarth
- I gcynnal perthnasoedd â rhanddeiliaid, gan gynnwys Arweinwyr Awdurdodau Lleol, ysgolion, a'r holl gyrff perthnasol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Ynghyd â'r Cyfarwyddwyr Addysg yn y Consortiwm, rheoli'r bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol, gan fanteisio i'r eithaf ar allu ar y cyd
- Arwain yr uwch dîm rheoli i ofalu bod dimensiwn rhanbarthol y strategaethau sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Cenhadaeth ein Cenedl yn cael ei gydlynu a'i hunanwerthuso, a bod ei ansawdd yn cael ei sicrhau
- I gydlynu datblygiad y Cwricwlwm i Gymru a pholisi cenedlaethol, gan ymgysylltu ag uwch-randdeiliaid allweddol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru, rhanbarthau eraill, ESTYN, Swyddfa Archwilio Cymru, a chymdeithasau proffesiynol eraill

- Bod yn gyfrifol am gyllideb ddirprwyedig a'r gwaith o gydlynu cynigion grant a ffurflenni ar gyfer LIC, a hynny ar ran y rhanbarth ac awdurdodau lleol cyfansoddol ac mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog S151 parthed materion grant perthnasol

- Arwain a rheoli holl adnoddau'r gwasanaeth (pobl, cyllid, eiddo a gwybodaeth) fel eu bod yn cefnogi'r targedau cytunedig ar gyfer darparu a gwella gwasanaethau

- Ysgwyddo cyfrifoldeb strategol am drefniadau cynllunio, ariannol (mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog S151), risg, cyfathrebu, gweinyddol ac atebolrwydd ar gyfer ERW, a hynny'n unol â nodau ac amcanion Bwrdd Rhaglen Weithredol ERW

- Rhoi cyngor ac arweiniad i'r Bwrdd Gweithredol ar faterion strategol sy'n ymwneud ag addysg, arolygu a rheoleiddio

- Ceisio atebion arloesol a chreadigol i fodloni anghenion y gwasanaeth o ran sicrhau newid a gwelliant

- Goruchwylio'r gwaith sicrhau ansawdd cadarn i ddarparu cymorth i ysgolion ledled y rhanbarth

- Bod yn gyfrifol am reoli, dadansoddi a dehongli data mewn modd effeithiol

- Bod yn atebol am berfformiad y staff trwy system rheoli perfformiad effeithiol

- Hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd a mynediad wrth ddarparu gwasanaethau ac wrth gyflogi staff, a hynny mewn amgylchedd gweithio diogel

- Sicrhau prosesau recriwtio a dysgu proffesiynol parhaus effeithiol ar gyfer staff

- Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n gymesur â'r radd, fel y bo'n rhesymol ofynnol

Mae amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed yn gyfrifoldeb craidd i'r holl staff.

MANYLEB Y PERSON

SGILIAU/PRIODOLEDDAU	**HANFODOL neu DYMUNOL**	**DULL GWERTHUSO**
Gwybodaeth/Addysg		
Gradd neu gymhwyster cyfatebol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Cymhwyster proffesiynol perthnasol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth	*DYMUNOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Gwybodaeth drylwyr am y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Gwybodaeth fanwl am faes/feysydd darparu gwasanaethau perthnasol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad

Profiad		
Profiad helaeth o weithio'n llwyddiannus ym maes Addysg ar lefel uwch	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Cofnod llwyddiannus o fod yn uwch-reolwr mewn sefydliad amlddisgyblaethol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Hanes profedig o ddatblygu, arwain a gweithredu strategaethau a rhaglenni llwyddiannus.	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Profiad o fodloni terfynau amser, gosod targedau a rheoli newid	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Cofnod o ddatblygiad proffesiynol parhaus	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Cofnod llwyddiannus o weithio mewn partneriaeth	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Cofnod profedig o reoli cyllideb yn llwyddiannus	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Cofnod llwyddiannus o arwain a rheoli	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Profiad o weithio gydag Aelodau Etholedig, neu'r gallu i arddangos y gallai sensitifrwydd gwleidyddol o'r fath gael ei ddysgu'n gyflym	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Sgiliau/Galluoedd		
Ymrwymiad i welliant parhaus	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Arwain a rheoli arloesedd a newid	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Sgiliau arweinyddiaeth effeithiol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Empathi ar gyfer cyd-destun rhanbarthol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Y gallu i arwain sefydliad trwy ei gam cychwynnol, yn ogystal â'i gamau datblygu dilynol, gan gynnal y momentwm, y ffocws a'r gwerth ychwanegol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Ymwybyddiaeth wleidyddol ar lefel leol a chenedlaethol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Y gallu i rymuso eraill i ddatblygu trwy gynnig cymorth a her mewn ffordd gadarnhaol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Yn greadigol, ac yn meddu ar sgiliau datblygedig iawn o ran datrys problemau, negodi a gwneud penderfyniadau, ynghyd â'r gallu i gynhyrchu atebion ymarferol ac arloesol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Ymrwymiad i ddysgu personol a datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff, gan hyrwyddo diwylliant o ddysgu parhaus	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Lefel uchel o sgiliau rhyngbersonol a chyflwyniadol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Sgiliau trefnu a rheoli ardderchog	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad

Gwybodaeth dda am ddulliau hunanwerthuso a phrosesau cynllunio gwelliant, a dealltwriaeth dda ohonynt	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Dealltwriaeth o'r fframweithiau deddfwriaethol a'r materion sy'n berthnasol i lywodraeth leol	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Y gallu i ddefnyddio TGCh yn hyderus	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Gofynion Eraill		
Dealltwriaeth o'r prif faterion addysg, yr agenda gwella a'r broses o ddarparu gwasanaethau datblygiadol o ansawdd uchel ar draws y sbectrwm Cynhwysiant/AAA	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Yn amlygu ymrwymiad i strategaethau gwella ysgolion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac i'w hyrwyddo trwy ddulliau ac arferion rheoli	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Gwybodaeth am agenda dysgu gydol oes Cenhadaeth ein Cenedl, a dealltwriaeth ohoni	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Y gallu i weithio'n effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg	*Lefel 2 HANFODOL* *Lefel 3 DYMUNOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad
Y gallu i deithio ledled y rhanbarth a thu hwnt er mwyn bodloni gofynion y swydd	*HANFODOL*	Ffurflen Gais/ Geirda/Cyfweliad